# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 16EG MAI 2018 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau Cymdogaeth), Mrs B.A. Jones (Cyllid Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau), M. Williams (Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), I. Evans (Rheolwr Cytundebau - Caffaeliad) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd C. Gordon (Aelod Cabinet dros Wasasanaethau Corfforaethol) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. COFNODION CABINET - 25AIN EBRILL 2018

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25ain Ebrill 2018 fel cofnod cywir.

### MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

### 4. ADRODDIAD ADOLYGIAD EIDDO 2018

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet o Adroddiad Adolygu Eiddo 2018. Mae'r adroddiad yn ceisio darparu trosolwg cryno a chofnod o'r hyn sy'n bortffolio eiddo annomestig mawr ac amrywiol iawn. Mae'n cyflwyno rhai metrigau allweddol, uwcholeuo tueddiadau mewn cyfnodau penodol, yn crynhoi gwarediadau a chaffaeliadau ac yn nodi rhai

o'r heriau sydd ar y gweill.  Nid yw'n gwneud unrhyw argymhellion.  Mae'r adroddiad yn dilyn yr Adroddiad Cyflwr yr Ystad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016 ond mae'n seiliedig ar fformat mwy strwythuredig a fwriadwyd i hwyluso diweddaru a chymharu â fersiynau dilynol.  Cynigir bod yr Adroddiad Adolygu Eiddo yn cael ei ddiweddaru a'i ailgyflwyno'n flynyddol.

Trafododd y Cabinet y Cydymffurfiad Statudol o archwilio a phrofi adeiladau, y mwyafrif ohonynt yn cael eu rheoli gan y Tîm Gwasanaethau Eiddo.  Eglurwyd bod hyfforddiant wedi cael ei ddarparu i Reolwyr Adeiladau ac mae Llawlyfr Rheolwyr Adeiladau wedi cael ei gynhyrchu.  Mae hyn yn cynnwys rhestr wirio cydymffurfiaeth gan fod y Cyngor nawr yn gweithredu dull dim goddefgarwch.  Hysbyswyd yr Aelodau bod achosion rhagorol o brofi statudol wedi gwella'n sylweddol ac mae'r ffigurau hyn yn cael eu monitro bob chwarter gan y Tîm Rheoli Corfforaethol.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â statws gwerthu cyn Safle Tŷ Darran yn Rhisga a chadarnhawyd y cyflwynir adroddiad yn fuan ynglŷn â defnydd y safle hwn ac adeiladau eraill y Cyngor yn y dyfodol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.  Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog, cymeradwyo'r Adolygiad Adolygu Eiddo 2018.

## 5. RHAGLEN AM GAFFAELIAD (STRATEGAETH) 2018 – 2023

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer gweithredu'r Caffael (Strategaeth) 2018 - 2023.

Cynghorwyd y Cabinet bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn cyflawni gwerth am arian o'i wariant caffael trydydd parti sydd ar hyn o bryd tua £170,000,000 y flwyddyn. Cydnabyddir gwerth defnyddio Caffael ac mae hyn yn cefnogi'r amcanion diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach.  Mae hyn yn cynnig gwir fanteision hirdymor i'r Gymuned y mae'n ei gwasanaethu a phobl Cymru tra'n cydbwyso materion Gwerth am Arian.  Bydd y Rhaglen yn sicrhau bod gan yr Awdurdod gyfeiriad presennol o deithio ar gyfer Caffael sy'n cefnogi Amcanion Llesiant a Chynllun Corfforaethol yr Awdurdod, tra'n cynnal hyblygrwydd.  Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r tirlun Caffael sy'n datblygu yn dilyn Brexit a chanlyniad Adolygiad Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Eglurwyd bod Strategaeth Gaffael ddiwethaf yr Awdurdod wedi cael ei gwneud yn 2015.  Bu oedi wrth osod gweledigaeth ar gyfer Caffael oherwydd datblygiad y Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol a'r ansicrwydd ynglŷn â Diwygio Llywodraeth Leol, Cydweithredu a Rhaglen Caffael Llywodraeth Cymru ei hun.  Roedd Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru "Caffael Cyhoeddus yng Nghymru - Hydref 2017" yn feirniadol o fethiannau Awdurdodau Lleol i gynnal Strategaeth Gaffael weithgar.  Daeth yr adroddiad i'r casgliad hefyd bod yna gwmpas clir ar gyfer gwelliannau mewn trefniadau caffael Cyrff Cyhoeddus.  Mae'r Rhaglen arfaethedig ar gyfer Caffael (Strategaeth) yn diffinio'r hyn a olygir gan Gaffael a'r statws gallu presennol yn dilyn Gwiriad Ffitrwydd Llywodraeth Cymru yn 2014.  Pennwyd amserlen o 5 mlynedd ar gyfer cyflwyno'r Rhaglen, fodd bynnag mae'r nodau strategol allweddol yn bellgyrhaeddol ac efallai y byddant yn ymestyn y tu hwnt i 2023.  Llofnododd yr Awdurdod y Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ym mis Tachwedd 2017 ('CY'). Mae'r Rhaglen yn cefnogi'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am y fframwaith gwych sydd wedi cael ei ddatblygu wrth symud ymlaen.  Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac esboniwyd y byddai'r Rheolwr Contractau a'r Pennaeth Caffael yn monitro cynnydd y Dangosyddion ac y byddant hefyd yn cael eu cynnwys yn yr Adolygiad Blynyddol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau.  O ran y System Prynu Dynamig a

ddefnyddiwyd, cadarnhawyd bod hwn yn broses ddefnyddiol a darparwyd enghraifft yn ymwneud â'r Cynllun SATC. Mae'n caniatáu i'r Tîm symleiddio prosesau ac ymweld â busnesau a chyflenwyr lleol sy'n cysylltu â Datblygu Economaidd a'u cynorthwyo.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) bod y Rhaglen Caffael (Strategaeth) 2018 – 2023, yn cael ei chefnogi;

(ii) derbyn diweddariad cynnydd blynyddol mewn perthynas â'r Rhaglen Caffael (Strategaeth), Cod Ymarfer a Chyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

**6. RHYBUDD O GYNNIG - FYDD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI YN CYFLWYNO CEFNOGAETH HYLENDID MENYWOD AM DDIM AR GYFER MENYWOD IFANC O FEWN EIN LLEOLIADAU YSGOL.**

Gofynnodd yr adroddiad am gefnogaeth y Cabinet wrth sefydlu Gweithgor Gorchwyl a Gorffen i ystyried cyflwyno cefnogaeth hylendid benywaidd am ddim i bob menyw ifanc o fewn lleoliadau ysgol. Derbyniwyd Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd E. Forehead, gyda chefnogaeth y Cynghorydd J. Pritchard, sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac, yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor.

Nodwyd i'r Cabinet fod yn cael ei dderbyn yn eang na all rhai menywod a merched yng Nghymru fforddio prynu cynhyrchion hylendid benywaidd hanfodol pan fydd eu hangen arnynt. Ym mis Mawrth 2018, derbyniodd yr Awdurdod daliad grant dewisol unwaith ac am byth o Lywodraeth Cymru o £41,657 i'w wario mewn perthynas â'r buddsoddiad i wella cyfleusterau toiledau a chaledwedd hylendid benywaidd mewn ysgolion. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid grant refeniw ar gael o £13,206 ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20. Rhaid defnyddio'r arian hwn i ddarparu cynhyrchion hylendid benywaidd i'r menywod a'r merched hynny sydd fwyaf anghenus yn yr Awdurdod.

Esboniwyd bod 4,774 o ferched mewn Ysgolion Uwchradd (Blynyddoedd 7 i 11) yn ôl y data disgyblion diweddaraf. O ran y data hyn yn unig, amcangyfrifir y byddai'r gost o ddarparu cynhyrchion hylendid benywaidd i bawb oddeutu £100 mil. Mae hyn yn seiliedig ar gost fisol o £2 fesul disgybl. Mae'n hollbwysig bod gan bob disgybl (gan gynnwys bechgyn) fynediad cyfartal priodol at gwricwlwm Addysg Gymdeithasol Personol (AGP) a gaiff ei gyflwyno'n dda ac yn gyson ar draws ysgolion a lleoliadau addysgol eraill.

Yn yr ymchwil ddiweddaraf ar 'Thlodi Misglwyf', cydnabyddir bod yr anghydraddoldeb hwn yn effeithio ar gyfraddau presenoldeb o hyd at 2%, gan fod tystiolaeth nad yw merched wedi gallu aros yn yr ysgol pan na allant gael gafael ar gynhyrchion neu eu gwaredu'n ddigonol. Trafododd yr Aelodau baragraff 4.8. o adroddiad y Swyddogion yn fanwl. Mae hyn yn darparu rhestr o gamau i'w hystyried yn absenoldeb archwiliad cynhwysfawr o'r modd y mae ysgolion a lleoliadau addysg cyfarpar yn dosbarthu a gwaredu cynhyrchion glanweithiol ac felly mae'n anodd asesu'r angen am adnoddau ychwanegol.

Cefnogodd y Cabinet yr argymhelliad i sefydlu Gweithgor Gorchwyl a Gorffen ac i gynnwys argymhelliad pellach y dylai'r Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno gan y Grŵp gael ei gyflwyno yn ôl ar gyfer cymeradwyaeth y Cabinet. Rhoddwyd pwyslais ar yr angen brys i sefydlu'r Gweithgor a chadarnhawyd bod y Cyfarfod ffurfiol cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau, 17eg Mai 2018, lle y cytunir ar ddyddiad terfynol. Mae'r Grŵp yn cynnwys Swyddogion, Aelodau a Rhanddeiliaid sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

PENDERFYNWYD yn amodol ar argymhelliad ychwanegol ym mharagraff 10.1. yn

adroddiad y Swyddog i'w gynnwys, dylid ddod â'r Cylch Gorchwyl i'w gytuno gan y Gweithgor Gorchwyl a Gorffen i'w gymeradwyo gan y Cabinet ac am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddogion: -

(i) cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig a sefydlu Gweithgor Gorchwyl a Gorffen;

(ii) dwyn y Cylch Gorchwyl y cytunir arno gan y Gweithgor Gorchwyl a Gorffen ar gyfer cymeradwyaeth y Cabinet.

## 7. POLISIAU HYBLYGRWYDD GWEITHLU'R YSGOLION

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y Tîm Addysg - Adnoddau Dynol (AD) i Ymgynghori ag Ysgolion ar Gynllun Diswyddo Gwirfoddol y Cyngor a'r Strategaeth Penodol Ysgolion sy'n cefnogi ailgyfeirio arian a glustnodwyd ar gyfer taliadau diswyddo yn ôl i Ysgolion Caerffili, Strategaethau Hyblygrwydd y Gweithlu.

Cynghorwyd y Cabinet y gall cau ysgol, cyfuno ac ad-drefnu strwythur staffio'r ysgol mewn perthynas â chyllideb, gan gynnwys gostyngiadau mewn cyllid grant, a cholli swyddi penodol arwain at ymgynghoriad diswyddo. Am yr holl resymau hyn, bu angen diffiniedig yn y Cyngor i gefnogi rhai ysgolion i leihau costau eu strwythurau staffio. Eleni, mae nifer o Ysgolion Caerffili wedi cael eu heffeithio gan y fformiwla ariannu sy'n gysylltiedig â chweched dosbarth a niferoedd disgyblion llai. Hefyd, mae lefelau cyllido Grant Amddifadedd Disgyblion sy'n dibynnu'n unig ar rifau Cinio Ysgol am Ddim. Mae gostyngiad mewn niferoedd Prydau Ysgol am Ddim mewn Ysgolion wedi cael effaith sylweddol ar y dyraniad cyllid cyffredinol ar gyfer yr ysgol honno. Nodwyd y bydd Ysgol Uwchradd Cwmcarn hefyd yn cau'n swyddogol ar 10 Hydref 2018.

Eglurwyd cyn datgan y sefyllfa diswyddo mewn unrhyw gapasiti, bod ysgolion yn gweithio'n weithredol gyda Thimau Adnoddau Dynol a Chyllid y Cyngor i gymryd pob cam rhesymol er mwyn osgoi diswyddo a bod ysgolion wedi gorfod dibynnu'n fawr ar Gynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol y Cyngor (YCG) i gefnogi'r nod hwn. Mae Cynllun YCG y Cyngor yn gynllun poblogaidd ond wrth i Reoliadau Pensiwn newid a'r costau sy'n gysylltiedig â’r cynllun YCG gynnydd yn unol ag oedrannau staff pensiwn y wladwriaeth statudol (hy 65 - 68 oed), mae'r costau sy'n gysylltiedig â rhyddhau pensiwn yn wirfoddol yn gallu dod yn waharddol, tua £100mil. Cynlluniau YCG a Diswyddo'r Cyngor yw'r unig Strategaethau Gweithlu sydd wedi'u hargymell i Ysgolion hyd yn hyn ac mae Ysgolion yn dibynnu llawer ar y Cynllun YCG er mwyn osgoi datgan sefyllfa diswyddo.

Bydd y Strategaethau Gweithlu yn rhoi llawer mwy o ryddid i Ysgolion i ddenu ymgeiswyr o pob ystod oedran sy'n dymuno gadael eu cyflogaeth. Gyda chyflwyniad y Strategaethau hyn, bydd yr Ysgolion a'r Cyngor yn parhau i weithio ar y cyd i ddarparu cyfleoedd trawsgludo a fydd o fudd i Ysgolion Caerffili i gadw athrawon a staff cymorth a all gyflwyno'r cwricwlwm er lles gorau addysg y disgyblion.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi mai bwriad y broses hon yw osgoi diswyddiadau gorfodol lle bynnag y bo hynny'n bosibl, a chael effaith gadarnhaol ar yr ysgolion yr effeithir arnynt gan gadw Athrawon a Staff Cymorth sy'n dymuno aros yn y proffesiwn a phwy all gyflwyno'r cwricwlwm yn y budd gorau i'r ysgolion. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor yn buddsoddi cyllid ar gyfer gwella addysg barhaus lle bynnag y bo'n bosibl yn hytrach na gwneud taliad ariannol i gynorthwyo gweithwyr i adael cyflogaeth y Cyngor.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) ehangu cwmpas Strategaethau Hyblygrwydd y Gweithlu Ysgolion trwy ddefnyddio'r trefniadau ariannu a amlinellir yn Adran 7 o Adroddiad y Swyddog, i gynnwys Cynllun Diswyddo Gwirfoddol y Cyngor a'r Strategaeth Penodol Ysgolion a argymhellir fel y manylir ym mharagraff 4.7, i gael ei gytuno;

(ii) awdurdodi'r Tîm Addysg Adnoddau Dynol (AD) i ymgynghori â Phrifathrawon ac argymell y Strategaethau hyn i Ysgolion.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.47 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 30ain Mai, 2018.

____________________

CADEIRYDD